**Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Awdurdod Ychwanegol) (Cymru) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Awdurdod Ychwanegol) (Cymru) 2022.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
1 Mawrth 2022

## 1. Disgrifiad

Mae Gorchymyn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Awdurdod Ychwanegol) (Cymru) 2022 ("y Gorchymyn") yn diwygio adran 17(2) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ("y Ddeddf") i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y rhestr o awdurdodau yn adran 17(2) o'r Ddeddf ac felly maent yn agored i gydymffurfio ag adran 17(1).

Daw'r darpariaethau hynny i rym ar 25 Mawrth 2022.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Cynhwysir y pwerau sy'n galluogi'r Gorchymyn i gael ei wneud yn adrannau 17(4) a 114(3) o'r Ddeddf.

Mae adran 17(4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio adran 17 drwy ychwanegu cofnod i unrhyw berson neu gorff at y rhestr o awdurdodau yn is-adran (2).

Cyn y gellir ei wneud, mae adran 114(3) yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i ddrafft o'r Gorchymyn gael ei osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi.

Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Senedd, caiff y Rheoliadau eu gwneud gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol. Byddant yn dod i rym ar 25 Mawrth 2022.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Gorchymyn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Awdurdod Ychwanegol) (Cymru) 2022 ("y Gorchymyn") yn diwygio adran 17(2) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ("y Ddeddf") i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y rhestr o awdurdodau yn adran 17(2) o'r Ddeddf ac felly maent yn agored i gydymffurfio ag adran 17(1).

Yn sgil y Gorchymyn hwn, bydd angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 roi sylw dyledus i effaith debygol arfer eu swyddogaethau ar droseddu ac anhrefn yn eu hardaloedd, camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill yn eu hardaloedd, ac aildroseddu yn eu hardaloedd, a’r angen i wneud popeth y gellir yn rhesymol ei wneud i atal y pethau hynny.

Mae’r Gorchymyn yn llunio pecyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn gosod y fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforedig yn effeithiol.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff corfforedig, sy’n cael eu sefydlu trwy reoliadau, ac yn cynnwys y prif gynghorau hynny yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu. Mewn rhai amgylchiadau, cynhwysir awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru mewn Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ogystal. Pan mai dyma yw’r achos, gosodir hyn hefyd yn y Rheoliadau sefydlu perthnasol.

Y bwriad cyffredinol wrth sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei drin yn rhan o'r ‘teulu llywodraeth leol’ neu yn aelod ohono. I raddau helaeth, bydd yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau, neu i bwerau a dyletswyddau tebyg, ag awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu.

Mae'r diwygiadau yn y rheoliadau hyn yn mewnosod "Cyd-bwyllgor Corfforedig a sefydlwyd gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc. 1);” i’r rhestr o awdurdodau yn adran 17(2) o’r Ddeddf.

## 5. Ymgynghori

Mae Gorchymyn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Awdurdod Ychwanegol) (Cymru) 2022 yn rhan o becyn o reoliadau / gorchmynion cyffredinol sy'n sail i Gyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru. Mae'r dull cyffredinol i ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a'r dyletswyddau a ddylai fod yn berthnasol wedi'i gyd-ddatblygu â Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a nifer o rwydweithiau proffesiynol, gan gynnwys, er enghraifft Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol a Chymdeithas Trysoryddion Cymru. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriad cynhwysfawr ynghylch y Rheoliadau drafft i Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r drefn reoleiddio ehangach y bwriadwyd iddi fod yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Cynhaliwyd y broses ymgynghori hon rhwng 12 Hydref 2020 a 4 Ionawr 2021.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, roedd cefnogaeth aruthrol, yn enwedig gan awdurdodau lleol, y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i gyfundrefnau deddfwriaethol a llywodraethu sy’n bodoli eisoes, ac y dylent fod yn ddarostyngedig i’r un pwerau a dyletswyddau â phrif gynghorau, ac i’r un fframwaith llywodraethu a gweinyddol â phrif gynghorau.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â rheoliadau a sefydlodd Gyd-bwyllgorau Corfforedig penodol o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau sy’n sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a Gorchmynion a Rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, paratowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar adeg gwneud y Rheoliadau sefydlu hynny. Dibynnir arno at ddibenion y Gorchymyn hwn.

I gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin 2021, mae

copi o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gael yn rhan o'r dogfennau perthnasol i gyd-fynd â’r Rheoliadau hynny.